

Tynnu sylw

“Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe’ch arwain chwi yn yr holl wirionedd.” (adn. 13)

Beth am ddarlenn Ioan 16:12–15 ac yna myfyrio

Bydd yr Ysbryd Glân nid yn unig yn ailadrodd yr hyn mae Iesu wedi’i ddweud, gan ein hysgogi drwy ein hatgoffa, ond bydd hefyd yn ein harwain “yn yr holl wirionedd”. Dydy hyn ddim yn golygu, fel mae rhai’n ei gredu, y bydd yr Ysbryd Glân yn dysgu popeth am unrhyw beth i ni – ynni niwclear, er enghraifft. Mae’n golygu y bydd yr Ysbryd Glân yn ein harwain yn yr holl wirionedd y mae angen i ni ei wybod am Dduw ac Iesu a’n perthynas ag ef. Mewn geiriau eraill, mae’n addewid o arweiniad parhaus ym mhob peth sy’n ymwneud â bod yn ddisgybl i Iesu Grist.

Dywedwyd wrth y disgyblion y byddai Iesu’n parhau i siarad a gweithredu drwy’r Ysbryd ar ôl yr esgyniad. Gan fod Iesu a’r Ysbryd yn un, gallwn fod yn sicr na fydd unrhyw beth mae’r Ysbryd yn ei ddatgelu rŵan yn gwrth-ddweud y dystiolaeth hanesyddol i Iesu yn yr efenngylau. Rhan o waith yr Ysbryd ydy datgelu’r ‘hyn sy’n dod’ (adn. 13), ond bydd yn ddatblygiad pellach ar arwyddocâd yr hyn sydd eisoes wedi dod atom mewn urddas yn Iesu a fu fyw ac a fu farw ac a atgyfododd. Mae’r Tad, y Mab a’r Ysbryd Glân yn rhannu bywyd cyffredin ac yn gweithredu mewn cytgorod perffaith.

Un ffordd o fesur yr hyn sy’n honni bod yn waith yr Ysbryd Glân ydy sylwi’n ofalus beth mae’n ei ddangos am Iesu. Dydy’r Ysbryd Glân ddim yn tynnu sylw ato ei hun gyda rhyw gimics diangen, ond yn hytrach mae’n gwneud pethau rhyfeddol sy’n clodfori Iesu. Mae’n gweithredu ac yn ymddwyn mewn ffyrdd sy’n ein harwain i’r casgliad mai dyna mae Iesu’n ei wneud a dyna’r ffordd mae’n ei wneud. Mae’r Ysbryd Glân yn amlygu’r gwyleidd-dra dwyfol drwy dynnu’r sylw oddi arno ei hun a’i roi ar Iesu. Mae hyn yn rhoi canllaw go dda i ni i bwysu a mesur y pethau sy’n digwydd mewn rhai rhannau o’r Eglwys heddiw y dywedir eu bod yn waith yr Ysbryd Glân.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

2 Thes. 2:13–17; 1 Tim. 3:14–4: 10; 2 Pedr 1:19–21; 1 Ioan 3:21–4: 6

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Paul yn adnabod gwaith yr Ysbryd yn Thesalonica?
2. Sut mae Ioan yn dweud y gallwn adnabod Ysbryd Duw?

Gweddi

O Dad, helpa fi i allu gwahaniaethu rhwng gormodedd y cnawd a gwir waith yr Ysbryd Glân. Dw i’n dyheu am ddiwygiad go iawn – un sy’n gwneud Iesu’n fwy real i’r byd. Dw i’n gweddïo yn ei enw ac er gogoniant iddo. Amen.